**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**14 Rhagfyr 2015**

## ALLDRO AMCANOL 2015-2016

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu alldro amcanol wedi'i amcangyfrif am flwyddyn ariannol 2015-2016 i'r Aelodau.

## Cyflwyniad

2 Mae'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yn ôl yr arwyddion cyfredol bydd yna £34,803 o danwariant. Ceir dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd Tachwedd 2015, ac yn amcangyfrif y gwariant am 4 mis olaf y flwyddyn.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Mae’r rhan fwyaf o’r tanwariant ar gyflogau yn ymwneud â diffoddwyr tân y system RDS, sef £297k. Mae sefyllfa’r alldro yn seiliedig ar y niferoedd presennol ac mae’n ystyried tueddiadau mewn lwfansau a throsiant ar sail profiad y blynyddoedd blaenorol a lefelau’r gweithgarwch hyd yn hyn.

6 Mae’r swyddi newydd ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig ar gontract i weithio 21 awr o leiaf yr wythnos, gyda’r disgwyliad gwreiddiol eu bod yn gweithio 30 awr ar gyfartaledd yr wythnos. Fodd bynnag, bu cynnydd yn y gofyn ar ddiffoddwyr tân amser cyflawn gwledig i ddarparu gofal ar orsafoedd amser cyflawn o ganlyniad i ymddeoliadau ac i ymorol am absenoldeb mamolaeth. Er mwyn darparu’r gofal hwn mae diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig wedi bod yn gweithio hyd at 42 awr yr wythnos. Mae’r oriau ychwanegol wedi arwain at orwariant amcangyfrifedig o gymharu â’r gyllideb wreiddiol; mae’r costau ychwanegol yn cael eu talu gan arbedion yng nghyllidebau’r system RDS a’r diffoddwyr tân amser cyflawn.

7 Mae’r gyllideb ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn yn dangos tanwariant o £204k o gymharu â’r gyllideb wreiddiol. Roedd yr adroddiad blaenorol ar yr alldro yn amcangyfrif gorwariant o £36k ar y pennawd hwn ar y gyllideb, gan ei fod yn darparu ar gyfer 33 yn rhagor o swyddi diffoddwyr tân i fod yn rhan o’r llu o fis Ionawr 2016 ymlaen. Adolygwyd y sefyllfa hon erbyn hyn, ac oherwydd toriadau posibl i gyllid ar gyfer y sector cyhoeddus a’r angen i gyfyngu ar unrhyw gynnydd yn y gyllideb yn 2016, penderfynwyd cyflogi recriwtiaid newydd yn ogystal â’r 3 diffoddwr tân sydd wedi cael eu secondio o frigadau eraill a 10 prentis. Bydd y newid yn y strwythur hefyd yn darparu cyfleoedd i nifer o bobl ifanc yn y rhanbarth.

8 Mae’r tanwariant yng nghyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â’r swydd wag ar gyfer prif swyddog tân cynorthwyol.

9 Mae’r gorwariant ar gyllideb crefftwyr peirianneg wedi digwydd oherwydd bod prentis mecaneg ychwanegol wedi cael ei gyflogi fel bod gan y gwasanaeth adnoddau ychwanegol i wneud mwy o waith yn fewnol ar gynnal a chadw cerbydau. Adlewyrchir hyn yn y tanwarianau o fewn y cyllidebau trwsio a chynnal a chadw cludiant.

10 Mae’r gorwariant ar Bensiynau Diffoddwyr Tân oherwydd costau a dalwyd o’r gyllideb refeniw am ymddeoliadau ar sail afiechyd nad oedd yn hysbys pan osodwyd y gyllideb.

## Safleoedd

11 Yn gyffredinol, bydd y gyllideb safleoedd yn cynnwys mymryn o danwariant, sef £6k. Nid oes unrhyw amrywiadau sylweddol i adrodd yn eu cylch ar yr adeg hon o'r flwyddyn ariannol.

## Cludiant

12 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd £142k o danwariant yn y gyllideb Cludiant. Mae'r arbedion yn y gyllideb trwsio a chynnal a chadw wedi digwydd oherwydd bod gwaith ychwanegol yn cael ei wneud yn fewnol a bod arbedion wedi digwydd mewn nifer o gontractau. Yn ôl yr arwyddion ar hyn o bryd, bydd costau tanwydd yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y lefelau gweithgarwch presennol a'r gostyngiad ym mhrisiau tanwydd. Yn dilyn cynnydd mewn gwaith offer a wneir yn fewnol, bu'n rhaid prynu cyfarpar ychwanegol. Mae'r costau ychwanegol yn cael eu gwrthbwyso gan arbedion mewn rhannau eraill o'r gyllideb, a bydd hynny'n gymorth i wneud arbedion o hyn ymlaen oherwydd bydd mwy o waith yn cael ei wneud yn fewnol.

## Cyflenwadau

13 Mae'r Awdurdod wedi prynu gwisg newydd dan y fframwaith caffael gwisgoedd (pwyllgor materion cenedlaethol) Cymru gyfan, ac felly mae rhai gwisgoedd wedi cael eu prynu o flaen llaw er mwyn cael arbedion wrth gaffael. Arweiniodd hyn at £11k o orwariant amcangyfrifedig.

14 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd gorwariant ar gostau Cyfrifiaduron, ac mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant wedi digwydd oherwydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r prosiect a'r risgiau cysylltiedig. Y llynedd, neilltuwyd £300k i ymorol am rai o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo, ond ar yr adeg hon o'r flwyddyn gellir talu'r costau ychwanegol o'r gyllideb refeniw. Mae'r gorwariant hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan arbedion yn y gyllideb cysylltiadau. Mae hyn oherwydd costau is mewn nifer o feysydd; y contract ffonau symudol, llinellau tir a chaledwedd cysylltiadau.

15 Bydd gorwariant ar Dreuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth oherwydd y ffordd o drin Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl at ddiben cyfrifyddu. Mae'r orsaf wedi ei sefydlu fel cyfrif masnachu. Felly mae unrhyw orwariant dros incwm yn cael ei dalu o'r cyfrif refeniw. Eleni, amcangyfrifir y bydd hynny'n £7k. Hefyd mae cynnydd yn yr hawliadau am gynhaliaeth oherwydd y pellteroedd ychwanegol sy'n cael eu teithio a'r oriau sy'n cael eu gweithio gan ddiffoddwyr tân sy'n darparu gofal ar orsafoedd gwledig. Disgwylir y bydd gorwariant o £15k yn y gyllideb cynhaliaeth.

16 Bydd gwariant ar brosiectau arbennig megis 'Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys' (JESG), mentrau'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol (NIC), Rhaglen Cyfarwyddyd Gweithredol Cenedlaethol a'r peilot Cyd-Ymateb yn golygu £78k o orwariant. Mae'r gorwariant oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â'r peilot Cyd-Ymateb. Dyma fenter newydd felly ni chafodd unrhyw gyllideb ei dyrannu yn ystod y broses o osod y gyllideb. Os oes gorwariant ar y gyllideb refeniw ar ddiwedd y flwyddyn, gallai'r costau hyn gael eu talu o'r gronfa gyffredinol wrth gefn.

**Asiantaeth**

17 Mae'r gost i'r Awdurdod am lanhau adeiladau wedi cynyddu'n sylweddol gan fod contract glanhau wedi cael ei osod i un contractwr i lanhau'r holl orsafoedd. O'r blaen, roedd y gwaith glanhau ar orsafoedd y system RDS yn cael ei wneud gan gymysgedd o gontractau gydag awdurdodau lleol a chan ddiffoddwyr tân y system RDS a oedd yn cael lwfans i gyflawni'r dyletswyddau. Bydd y costau ychwanegol yn cael eu talu drwy arbedion ar y lwfansau glanhau.

**Cyllido Cyfalaf**

18 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin a bod oedi angenrheidiol ar brosiectau Tân ac Ambiwlans Wrecsam ac aildrefnu arfaethedig ar brosiectau Tywyn a Nefyn. Hefyd, sicrhawyd costau llog isel drwy 'fenthyca'n fewnol', sef defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau i ariannu'r rhaglen yn hytrach na threfnu benthyciadau newydd.

## Incwm

19 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd yr incwm fymryn yn is na'r gyllideb wreiddiol. Bu gostyngiad derbyniol yn nifer y galwadau am wasanaethau arbennig, ond arweiniodd hyn at gael llai o incwm na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb. Mae'r incwm o'r Ffioedd Cyfalaf wedi gostwng yn unol â'r gwariant a fu ar y rhaglen gyfalaf ac ail-gysoni'r gyllideb gyfalaf. Cafwyd ad-daliad o £34k oherwydd newidiadau yn y lwfansau treth ar gyfer prydlesau gweithredu, ac mae hyn yn ymwneud â hen brydlesau a oedd gan yr Awdurdod.

## Tanwariant

20 Amcangyfrifir y bydd gwariant cyfalaf ar y rhaglen cerbydau ysgafn a phrynu cyfarpar ar gyfer y Fflyd yn golygu bod gorwariant o gymharu â'r gyllideb. Er mwyn lleihau costau yn y blynyddoedd i ddod, telir am y costau ychwanegol hyn gan gyfraniad o'r refeniw.

21 Y tanwariant a amcangyfrif yw £35k, ac ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol mae'n bosibl y bydd y sefyllfa hon yn newid. Roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys cyfraniad o £223k o'r cronfeydd wrth gefn. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol ni fydd gofyn ddefnyddio'r gronfa honno ar hyn o bryd.

## Argymhelliad

22 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant bychan.